north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
## 31 Gorffennaf, 2020

**TEITL:** *Cynllun Twf Gogledd Cymru - Ymgysylltu â'r Sector Preifat*

**AWDUR:** *Alwen Williams, Cyfarwyddwr Rhaglen*

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Cyflwyno trosolwg o'r berthynas a'r sianeli ymgysylltu cyfredol rhwng Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r sector preifat yn y Gogledd (***Atodiad 1***).

1.2. Cyflwyno diweddariad i'r aelodau ar statws Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy fel partner i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (***Atodiad 2***).

1.3. Cyflwyno Cylch Gorchwyl drafft arfaethedig a gyflwynwyd i'w ystyried gan Gadeirydd dros dro y Grŵp Cyflawni Busnes (***Atodiad 3***).

1.4. Cynnig y camau nesaf a'r dull o gryfhau perthynas, ymgysylltiad ac ymglymiad y sector preifat yng Nghynllun Twf Gogledd Cymru (***Atodiad 4***).

### 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Nodi statws y perthnasau a'r sianeli ymgysylltu cyfredol gyda'r Sector Preifat.

2.2. Nodi bwriad Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy i dynnu'n ôl fel partner i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

2.3. Nodi Cylch Gorchwyl drafft a gyflwynir gan Gadeirydd dros dro'r Grŵp Cyflawni Busnes a gofyn am adroddiad pellach gan y Cyfarwyddwr Rhaglen mewn ymgynghoriad â Swyddog Monitro'r Awdurdod Lletya ar y diwygiadau arfaethedig i gylch gorchwyl y Grŵp Cyflawni Busnes a fabwysiedir gan y Bwrdd Uchelgais.

2.4. Cadarnhau'r camau a'r gweithredoedd nesaf arfaethedig i wella ymgysylltu a dealltwriaeth y sector preifat.

### 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae angen penderfyniad er mwyn galluogi i'r Swyddfa Rhaglen fuddsoddi mewn dylunio a chyflawni mecanweithiau ar gyfer gwella ymgysylltu gyda'r sector preifat yn y Gogledd.

### 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae prosiectau'r Cynllun Twf wedi'u dylunio i helpu'r rhanbarth i oresgyn y rhwystrau i fuddsoddi y mae'r sector preifat yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae'r dull o gyflawni'r Cynllun Twf yn llwyddiannus wedi'i seilio ar berthynas gref a chydweithredol rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU, partneriaid rhanbarthol a'r sector preifat.

4.2. O'r cychwyn cyntaf, mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi cynnwys Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy fel partner. Mae'r berthynas hon wedi galluogi i lais y gymuned fusnes, sy'n aelodau o'r Cyngor Busnes, gael ei gynrychioli.

4.3. Chwarae rôl ganolog wrth gefnogi, herio a chynghori'r gwaith o ddylunio a chyflawni ymyraethau allweddol i fynd i'r afael â'r rhwystrau a'r problemau hynny.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Dim.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Er yn weithredol yng ngwaith y Bwrdd Uchelgais, nid oedd Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy yn bartïon yng Nghytundeb Llywodraethu 1.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Derbyniwyd y cynnig gan Gyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy ar 16 Mehefin 2020.

9.2. Ar 7 Gorffennaf 2020, fe wnaeth Cadeirydd a Chyfarwyddwr Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gyfarfod â Chadeirydd ac Is-gadeirydd Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy i drafod cyfleoedd posib i gryfhau'r berthynas gyda'r sector preifat drwy'r Cyngor Busnes.

9.3. Anfonodd y Swyddfa Rhaglen arolwg byr at aelodau'r Grŵp Cyflawni Busnes i ddeall y teimlad cyfredol tuag at gydweithio ac ymgysylltu gyda Chynllun Twf Gogledd Cymru.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Trosolwg o ymgysylltu'r sector preifat gyda'r Cynllun Twf |
| **Atodiad 2** | Crynodeb o lythyr a dderbyniwyd gan Gyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy |
| **Atodiad 3** | Cylch Gorchwyl drafft arfaethedig a dderbyniwyd gan y Grŵp Cyflawni Busnes |
| **Atodiad 4** | Cynnig ar gyfer cryfhau Ymgysylltiad â'r Sector Preifat |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

"Mae'r adroddiad yn amserol ac yn cynnig camau cadarnhaol i ddatblygu perthynas y Bwrdd Uchelgais a'r sector breifat yn sgil penderfyniad NWMDBC. Sefydlwyd y Bwrdd Cyflawni Busnes gan y Bwrdd Uchelgais yn Ebrill 2019 i fod yn gorff oedd I'w gynghori, magu cysylltiadau a dod ac arbenigedd, buddsoddiad a phrofiad ymlaen. Mae'n synhwyrol fod adolygiad yn cymryd lle ac mae'r cylch gorchwyl drafft a baratowyd gan Gadeirydd y Bwrdd Datblygu Busnes yn gosod sail ar gyfer yr adolygiad. Fodd bynnag fel corff a sefydlwyd gan y Bwrdd Uchelgais a sydd yn cael ei gydnabod yn y Penawdau Telerau mae'n bwysig fod yr adolygiad yn sicrhau y cydbwysedd priodol yn y berthynas o safbwynt llywodraethu da ond hefyd sicrhau fod y drefn yn effeithiol ac yn cyfarch anghenion y Bwrdd Uchelgais."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Cyflwynir sylwadau pellach ar lafar, fel bo angen, yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor (BUEGC)."

**ATODIAD 1**

**Cynllun Twf Gogledd Cymru - Ymgysylltu â'r Sector Preifat**

## Cefndir

Yng nghyfarfod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd Uchelgais) ar 12 Mehefin 2020, gwnaed penderfyniad i ohirio bwrw ymlaen â'r broses o benodi Cadeirydd ar gyfer y Bwrdd Cyflawni Busnes er mwyn rhoi cyfle i'r Bwrdd Uchelgais ystyried a oedd angen diwygio rôl y Bwrdd Cyflawni Busnes.

Nodwyd gweithred bod angen ymgynghori pellach gyda chynrychiolwyr y sector preifat a chyflwyno adroddiad pellach ac argymhellion i'r Bwrdd Uchelgais.

## Diweddariad ar gynnydd a'r camau sydd wedi'u cymryd

<u>Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy</u>

- Fe wnaeth Cadeirydd a Chyfarwyddwr Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gyfarfod â Chadeirydd ac Is-gadeirydd Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy i drafod cyfleoedd posib i gryfhau'r berthynas gyda'r sector preifat drwy'r Cyngor Busnes. Cyflwynwyd cynnig i'w ystyried lle byddai'r Cyngor Busnes yn cynnull Senedd Busnes newydd a fyddai'n cynnwys 60 busnes unigol o ledled y Gogledd i gynrychioli llais cyflawn y busnesau.
- Derbyniodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru lythyr yn datgan eu bwriad i dynnu'n ôl fel partner yn sgil newid i flaenoriaethau ac amgylchiadau o ganlyniad i Covid-19 a'r angen i ganolbwyntio adnoddau ar gefnogi'r sefydliadau sy'n aelodau yn y sector preifat yn uniongyrchol yn y cyfnod hwn (***Atodiad 2***).

<u>Grŵp Cyflawni Busnes</u>

- Mae Dyfrig Siencyn, Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, wedi mynychu dau gyfarfod diwethaf y Grŵp Cyflawni Busnes a bydd yn parhau i fynychu'n rheolaidd.
- Mae rôl ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Cyflawni Busnes wedi'i throsglwyddo i'r Swyddfa Rhaglen. Daethpwyd i'r penderfyniad hwn ar y cyd yn sgil y ffaith fod Covid-19 yn golygu bod yr ysgrifenyddiaeth gyfredol, sef Gerry Beer, Prifysgol Glyndŵr, yn addasu eu blaenoriaethau
- Anfonodd y Swyddfa Rhaglen arolwg byr at aelodau'r Grŵp Cyflawni Busnes i ddeall y teimlad cyfredol tuag at gydweithio ac ymgysylltu gyda Chynllun Twf Gogledd Cymru.
- Mae'r Grŵp Cyflawni Busnes wedi cydweithio i greu Cylch Gorchwyl drafft sy'n amlinellu eu fframwaith arfaethedig ar gyfer cydweithio gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (***Atodiad 3***).

## Crynodeb o'r sefyllfa gyfredol

Mae'r ffaith fod Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy wedi tynnu'n ôl fel aelod o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn gadael y Bwrdd heb bartner cynrychioladol a all gyfrannu a siarad ar ran y sector preifat yn y Gogledd. Gwahoddir Cadeirydd y Grŵp Cyflawni Busnes i fynychu pob cyfarfod o'r Bwrdd Uchelgais fel ymgynghorydd.

Mae'r berthynas gyda'r corff ymgynghorol, y Grŵp Cyflawni Busnes, yn cryfhau. Mae canlyniad yr arolwg a wnaed gydag aelodau wedi rhoi meysydd clir i ni ar gyfer cynyddu ymgysylltiad ond mae hefyd yn adnabod bod rhai gweithredoedd sydd eisoes wedi'u rhoi yn eu lle yn cael effaith.

**ATODIAD 2**

**Llythyr a dderbyniwyd gan Gyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy**

Ar 16 Gorffennaf 2020, ysgrifennodd Cadeirydd Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy at y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Cadeirydd y Bwrdd Uchelgais, yn rhoi gwybod am eu bwriad i dynnu'n ôl o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Mae'r llythyr yn egluro bod effaith Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar eu busnes, ar sefydliadau sy'n Aelodau o'r Cyngor Busnes ac, o ganlyniad, ar y Cyngor Busnes ei hun.

Mae'n mynd ymlaen i nodi:

"Os ydym am barhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i economi'n rhanbarth, mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ein hadnoddau cyfyngedig iawn lle mae eu hangen fwyaf, a lle gallwn gael yr effaith uniongyrchol fwyaf. Fel y gwyddoch, dros y blynyddoedd diweddar, rydym wedi neilltuo llawer o'n hadnoddau ar weithio law yn llaw gydag aelodau eraill y Bwrdd Uchelgais a'r Swyddfa Rhaglen ganolog, bellach, i helpu i ffurfio a chyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru."

"Gyda hynny mewn cof, yn anffodus, bydd rhaid i ni dynnu'n ôl yn ffurfiol o'r Bwrdd Uchelgais, gan nad oes gennym yr adnoddau ar gael i'w rhoi i waith y Bwrdd Uchelgais yn ogystal â'r gwaith o ganolbwyntio ar y sector preifat/sicrhau ein dyfodol yn yr hir-dymor. Rydym wedi gosod dyddiad i dynnu'n ôl fel 3 Awst 2020."

"Dros y blynyddoedd diweddar, mae'r Cyngor Busnes a'i aelodaeth wedi gwerthfawrogi'r bartneriaeth gydag aelodau eraill a swyddogion y Bwrdd Uchelgais a dymunwn dynnu'n ôl ar sail gyfeillgar. Byddwn yn parhau'n agored iawn i drefnu i'n haelodaeth a'r sector preifat ehangach ymgysylltu ar y Bwrdd Uchelgais a'r Cynllun Twf ond, fel nifer o sefydliadau eraill, rydym wedi gorfod gwneud dewisiadau anodd yn sgil effaith Covid-19."

**ATODIAD 3**
**Grŵp Cyflawni Busnes Cynllun Twf Gogledd Cymru**

**Cylch Gorchwyl Drafft, 22 Gorffennaf 2020**

**Pwrpas y grŵp:**

Cefnogi'r Bwrdd Uchelgais wrth gyflawni'r adenillion gorau ar fuddsoddiad gan Gynllun Twf Gogledd Cymru.

**Aelodaeth:**

- Hyd at 18 o aelodau, y cyfan o fusnesau yn y sector preifat.
- Rhaid i aelodau anelu i fod ar gael i fynychu o leiaf 80% o'r cyfarfodydd.
- Rhaid i 80% o'r aelodau gael hanes wedi'i brofi mewn entrepreneuriaeth ac adeiladu eu busnesau llwyddiannus eu hunain.
- Rhaid i'r aelodau fod yn annibynnol eu meddwl ac yn angerddol dros Ogledd Cymru a'i ddatblygiad economaidd.
- Yn ddelfrydol, rhaid i aelodau gael rhwydwaith ehangach o fusnesau, yn enwedig o fewn y Gogledd.
- Lle bo hynny'n bosib, bydd yr aelodaeth yn gytbwys ar draws y sectorau busnes amrywiol a bydd ganddynt brofiad yn eu plith o fuddsoddi cyfalaf.
- Bydd y grŵp yn anelu i fod mor amrywiol â phosib.
- Caiff aelodau'r grŵp eu dewis yn ôl eu hanes a'u profiad, ac nid oes rhaid iddynt fod o Ogledd Cymru.
- Bydd Aelodau'r Grŵp Cyflawni Busnes wedi'u henwebu gan y Cadeirydd a'u cymeradwyo gan y Grŵp.
- Bydd holl aelodau'r grŵp, yn cynnwys y cadeirydd, wedi'u dewis am ddwy flynedd a gallant sefyll i barhau am ddwy flynedd bellach os yw'r grŵp yn cymeradwyo hynny.
- Y Bwrdd Uchelgais neu'r Swyddfa Rhaglen fydd yn ymgymryd â holl dreuliau'r Grŵp.
- Bydd cadeirydd y Grŵp a'r aelodau yn cynnig eu gwaith ar sail wirfoddol yn unig.
- Bydd y Grŵp yn penodi Is-gadeirydd ar ei ddisgresiwn, os bydd angen.

**Y fanyleb ar gyfer cadeirydd y grŵp:**

- Entrepreneur gyda hanes cadarn mewn adeiladu busnesau.
- Profiad o weithio â llywodraeth leol, Llywodraethau Cymru a'r DU.
- Arweinydd a all gynrychioli'r Gogledd a'r lefel Genedlaethol a Rhyngwladol.
- Arweinydd sydd ag ymwybyddiaeth o botensial economaidd y Gogledd.
- Person credadwy ac sy'n cael ei barchu o fewn y gymuned fusnes.
- Person sydd â gwybodaeth am feysydd y rhaglenni sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen weledigaeth.

Bydd cynrychiolwyr y Bwrdd Uchelgais a'r Grŵp Cyflawni Busnes yn dewis Cadeirydd y Grŵp ar y cyd.

Bydd y cadeirydd yn gweithio'n agos iawn gyda Chyfarwyddwr Rhaglen Cynllun Twf Gogledd Cymru a chadeirydd/is-gadeirydd y Bwrdd Uchelgais.

DRAFT

**Atebolrwydd:**

- Bydd y Grŵp yn gweithredu fel corff annibynnol.
- Bydd y Grŵp yn craffu ac yn dadansoddi holl brosiectau'r Cynllun Twf a bydd yn adrodd ar ei ganfyddiadau ac yn rhoi adborth i'r Bwrdd Uchelgais. Bydd Cadeiryddion y ddau gorff yn nodi ac yn adrodd ar sail ffurfiol pa lefel o gefnogaeth neu bryder sy'n gysylltiedig â phob prosiect o fewn Rhaglenni'r Cynllun Twf ac yn adrodd ar unrhyw eitemau a godir yn ffurfiol i bawb sydd ynghlwm â'r prosiect.
- Bydd gan Gadeirydd y Bwrdd Uchelgais wahoddiad agored i'r Grŵp Cyflawni Busnes i godi unrhyw faterion o bryder neu deilyngdod.
- Y cadeirydd fydd y person cyfrifol am adrodd am argymhellion a chyngor y Grŵp i'r Bwrdd Uchelgais ar bob prosiect.

**Adolygu:**

- Caiff y cylch gorchwyl eu hadolygu gan y Grŵp bob chwe mis a'u diwygio fel sy'n briodol.

**Cyfarfodydd**

- Rhaid i'r Grŵp gyfarfod o leiaf chwe gwaith y flwyddyn. Bydd holl aelodau'r Grŵp yn cyfarfod gyda'i gilydd.
- Y Swyddfa Rhaglen fydd yn trefnu'n lleoliad.
- Bydd ysgrifenyddiaeth yn galw'r cyfarfod a bydd cadeirydd y Grŵp yn cadeirio'r cyfarfod.
- Bydd y Cadeirydd yn penderfynu ar yr eitemau ar y rhaglen ar gyfer pob cyfarfod.
- Bydd papurau'r cyfarfod yn cael eu cylchredeg bythefnos cyn y cyfarfod.
- Bydd gwahoddiad i gynrychiolwyr y Swyddfa Rhaglen a'r Bwrdd Uchelgais, nad ydynt yn aelodau, i'r cyfarfodydd fel sy'n briodol.
- Bydd y Swyddfa Rhaglen yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y grŵp.
- Bydd aelodau'r Grŵp yn craffu ac yn herio prosiectau'r Cynllun Twf a dylid eu hystyried yn "rhanddeiliaid y rhaglen/prosiect" sydd angen cadarnhau'n anffurfiol gynlluniau, gweithgareddau a gweithredoedd unrhyw raglen/prosiect cysylltiedig. Caiff yr argymhellion terfynol eu cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais.
- Gellir gwahodd arbenigwyr annibynnol allanol i'r cyfarfodydd fel sydd angen er mwyn rhoi cyngor.

DRAFFT

**ATODIAD 4**

Mae nifer o weithredoedd yn cael eu cynnig i gefnogi parhau i gryfhau ymgysylltiad y sector preifat.

Os caiff gefnogaeth y Bwrdd, bydd y Swyddfa Rhaglen yn arwain ar y gwaith hwn a bydd yn cyflwyno adroddiad ar y cynnydd i'r cyfarfod nesaf.

1. Datblygu strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n diffinio'n glir y sector preifat fel cynulleidfa allweddol ar gyfer negeseuon ac ymglymiad ac sy'n darlunio'r sianeli i hyn ddigwydd. Bydd y strategaeth yn cynnwys datblygu sianel gyfathrebu ar-lein lle gellir targedu gwaith y Bwrdd Uchelgais Economaidd at sectorau a diwydiannau allweddol i helpu i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.

2. Parhau i weithio gyda'r Grŵp Cyflawni Busnes i gryfhau perthnasau ac adeiladu ar y ddealltwriaeth a'r ymglymiad wrth ddatblygu achosion busnes y rhaglenni.

3. Cynnig ar sut i ddod â phartner i gynrychioli'r sector preifat i weithio gyda'r Bwrdd Uchelgais o ystyried yr amgylchiadau sydd wedi'u hamlinellu gan Gyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy.

4. Asesu a gweithredu opsiynau i weithio gyda phartneriaid presennol y Cynllun Twf ar ddull cyd-gysylltiedig i adeiladu ymgysylltiad ac ymglymiad y sector preifat. Dylai hyn deimlo fel symudiad a fydd, unwaith y bydd wedi ennill dealltwriaeth a chefnogaeth, yn adeiladu momentwm a chefnogaeth wrth i ni weithio tuag at gyflawni'r Cynllun Terfynol eleni.